

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 14 Rhagfyr 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 17 RHAGFYR 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar:

- (i) 5 Tachwedd, 2015 (copi ynghlwm).
- (ii) 16 Tachwedd, 2015 (copi i ddilyn)

5 DARPARIAETH GOFAL SYLFAENOL YN ARDAL PRESTATYN

Cael cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

9.35 a.m.

6 GWASANAETH MEDDYG TEULU TU ALLAN I ORIAU

Cael cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

10.10 a.m.

Egwyl Gysur

7 BYW'N ANNIBYNNOL Â CHEFNOGAETH (Tudalennau 15 - 18)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth: Ardal Y Gogledd / Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl / Rheolwr Gofal a Chymorth Tai, ar gynnydd Byw'n Annibynnol â Chefnogaeth i gwrdd ag angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai pobl hŷn ar draws y Sir, yn ystod yr hinsawdd ariannol bresennol o gyfyngiadau parhaus a'r angen i'r Cyngor sicrhau arbedion, a oedd wedi'i ddsbarthu yn flaenorol.

10.55 a.m.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 19 - 34)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

11.30 a.m.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

11.40 a.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Hilditch-Roberts
(Cadeirydd)

Brian Blakeley
Bill Cowie
Peter Arnold Evans
Martyn Holland
Win Mullen-James

Y Cyngorydd Rhys Hughes (Is-
Gadeirydd)

Bob Murray
Anton Sampson
Cefyn Williams
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 5 Tachwedd 2015 am 9.30 am.

PRESENNOL

Cynghorwyr Brian Blakeley, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-gadeirydd), Bob Murray, Anton Sampson a Cheryl Williams

Aelodau Cyfetholedig:- D Houghton a G Williams

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Bobby Feeley, Barbara Smith, David Smith ac Eryl Williams ar gais y Pwyllgor.

Arsylwyr:- Y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies ac Arwel Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Cynllunio Addysg a Rheolwr Adnoddau (IL), Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS) , Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Hyfforddai Graddedig, Swyddfa'r Rhaglen a Thîm Cudd-wybodaeth (IBB), Swyddog GIS (TW), Swyddog Strategaeth Tai Lleol a Datblygu (JA), Uwch Swyddog, Strategaeth a Phartneriaethau (SL), Swyddog Arweiniol, Tai Cymunedol (GD), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bill Cowie, Win Mullen-James, a Cefyn Williams

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Aelodau Cyfetholedig Gill Greenland, Dr D Marjoram a J Piper

2 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Bill Cowie, Gill Greenland, Dr. D. Marjoram, Win Mullen-James, John Piper a/ac Cefyn Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn eitem 5, Adolygu'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 7, Strategaeth Dai Ddrafft.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 10 Medi 2015.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo a derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 10 Medi, 2015 fel cofnod cywir.

5 ADOLYGIAD O'R POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth ychwanegol fel y gofynnwyd gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 10 Medi, 2015. Amlinellodd y cefndir o roi'r Polisi ar waith. Roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno polisi cludiant ysgol fel opsiwn i wneud arbedion posibl o fis Medi 2016 i weithdy Rhyddid a Hyblygrwydd yn ystod 2014.

Roedd Aelodau Etholedig, ar ôl gwireddu swm yr arbedion posibl sy'n gysylltiedig â'r gyllideb hon, wedi cyfarwyddo swyddogion i weithio tuag at weithredu'r polisi o fis Medi 2015 yn hytrach na 2016 fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Roedd y penderfyniad hwn wedi golygu bod angen terfynau amser tyn er mwyn cyhoeddi'r newidiadau polisi arfaethedig o fewn y gofynion statudol, sef 11 mis cyn ei weithredu.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r cymhwyster ar gyfer cludiant ysgol i ysgolion uwchradd, a dyna pam fod y rheol 3 milltir i fod yn gymwys i gael mynediad i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol, ac ar yr amod mai dyma oedd yr ysgol addas agosaf.

Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd Sir Ddinbych wedi bod yn llawer llai caeth wrth weithredu'r meini prawf cymhwyso, ac o ganlyniad, roedd nifer uchel o ddisgyblion wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth er nad oeddent yn gymwys mewn gwirionedd.

Wrth weithredu'r polisi i ddisgyblion ysgolion uwchradd, daeth i'r amlwg bod cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol wedi'i ddarparu i rai disgyblion ysgolion cynradd, er nad oeddent yn gymwys i gael y gwasanaeth gan eu bod yn byw llai na 2 filltir o'r ysgol addas agosaf. Roedd yn ymddangos fod hyn wedi achosi problem i deuluoedd yn Rhuddlan gyda phlant a oedd yn mynychu Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl. Gofynnwyd i drefnu cyfarfod rhwng swyddogion a rhieni i asesu'r llwybr o Ruddlan i'r ysgol. Aseswyd y llwybr yn ddiweddar, a phenderfynwyd nad oedd yn beryglus. Gallai'r gost o dalu am gludiant cyhoeddus i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion ffydd yn y dyfodol gyfyngu dewis rhieni wrth ddewis ysgolion i'w plant eu mynychu.

Roedd y rhan fwyaf o'r materion yn yr ardaloedd gwledig, gan mai disgyblion o'r ardaloedd hynny a oedd yn dibynnu ar gludiant ysgol. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd

at effaith gymunedol colli'r gwasanaethau bws ar yr ardaloedd gwledig. Cododd hyn bryderon ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd rhai cymunedau gwledig dros y tymor canolig i hir yn dilyn colli eu hysgolion a'u gwasanaeth bws. Roedd yr Aelodau'n pryderu, oherwydd y colledion hyn, y byddai cymunedau gwledig, maes o law, yn dod yn breswylfeydd i gymudwyr heb ymdeimlad o gymuned.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y camau roedd un ysgol uwchradd wedi eu cymryd, sef talu am gludiant i ddisgyblion o un ardal i'r ysgol er mwyn ei galluogi i gynnal niferoedd y disgyblion.

Efallai y bydd angen adolygu'r terminoleg a ddefnyddir yn y Polisi er mwyn sicrhau eglurder, er enghraifft, efallai y caiff enw'r Polisi ei newid o gludiant o'r cartref i'r ysgol i'r Polisi Cludiant Ysgolion. Yn ei gyfarfod ar 11 Medi, 2014 penderfynodd y Pwyllgor y dylid galw'r Polisi yn "Polisi Cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol", fodd bynnag, rhaid cael cysondeb wrth gyfeirio ato i osgoi unrhyw ddrysych gyda pholisïau cludiant ysgol eraill, fel cludiant ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

Un canlyniad cadarnhaol i weithrediad y Polisi oedd yr ysbryd cymunedol a dod â chymdogion at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a gweithio gyda'i gilydd i gludo eu plant i'r manau codi dynodedig neu i ysgolion. Byddai mwy a mwy o angen am gydweithrediad o'r fath yn y dyfodol wrth i fwy o doriadau i gyllid cyhoeddus dechrau effeithio ar y gwasanaethau y gallai awdurdodau lleol eu darparu.

Cynigiodd y swyddogion drafod gyda'r Aelodau, yn unigol, broblemau heb eu datrys yn ymwneud ag unigolion/ teuluoedd penodol o fewn eu wardiau. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio na ellid datrys pob ymholiad er boddhad y rhieni/gwarcheidwaid.

Gofynnodd Swyddogion i'r Aelodau, a oedd yn ymwybodol o gwynion/ ymholiadau heb eu datrys, i gysylltu â nhw os oeddent o'r farn bod unrhyw gwynion/ ymholiadau nad oeddent wedi mynd i'r afael â nhw.

Gofynnodd yr aelodau i gopi o'r ddogfen gael ei dosbarthu i'r aelodau ar 3 Gorffennaf 2015 a dosbarthu'r llythyr a anfonwyd at rieni ar 10 Awst 2015 iddynt. Cytunodd y swyddogion i wneud hyn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, rhoddodd swyddogion yr ymatebion canlynol i gwestiynau'r Aelodau:

- Cafwyd trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn perthynas â chynyddu capasiti cludiant ysgol o Fetws-yn-Rhos trwy Gefnmeiriadog a'r problemau wrth ddod o hyd i ddatrysiaid cynaliadwy ac addas i'r ddwy ochr.
- Pwysleisiwyd na fyddai swyddogion yn awgrymu bod plant yn cerdded i'r manau codi, ond efallai y byddai sefyllfaoedd lle gallent gerdded yn ddiogel os oeddent yng nghwmni oedolyn. Byddent yn dweud wrth rieni y dylent wneud trefniadau i'w plant gyrraedd eu manau codi gofynnol yn ddiogel, naill ai drwy gerdded gyda nhw lle bo modd, neu eu cludo nhw'n uniongyrchol. Byddai hyn yn ôl eu disgrisiwn.

- Dywedodd y Swyddogion na ddaeth yn amlwg tan ddechrau tymor yr hydref, beth fyddai nifer llawn y disgyblion y byddai'r newidiadau i'r polisi yn effeithio arnynt. Roeddem yn ymwybodol o nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, ond yn ystod ychydig wythnosau cyntaf y tymor, daeth yn glir sawl disgybl a oedd yn derbyn cludiant am ddim, er nad oeddent yn gymwys. Ni fyddai rhieni/ gwarcheidwaid y disgyblion hynny wedi derbyn hysbysiad ymlaen llaw o ddiddymu'r cludiant ac, felly roedd y cwynion wedi eu cynhyrchu'n gyffredinol gan yr unigolion hynny.
- Roedd proses apelio ar waith ac roedd hyn wedi bod yn gweithio yn dda.
- Cadarnhaodd swyddogion, os oedd disgyblion wedi eu caniatáu i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, nad oedd i'w hysgol addas agosaf, cyn cyflwyno'r Polisi presennol, eu bod yn dal yn gymwys i gael cludiant am ddim o'u man codi dynodedig am weddill eu cyfnod addysg statudol.
- Cafwyd cadarnhad nad oedd yr arbedion a ragwelwyd wedi cael eu cyflawni eto, er gwaethaf cyflwyno'r Polisi, ond nad oeddent yn rhy bell oddi wrth y targed a osodwyd.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***PENDERFYNODD** yr Aelodau, yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth angenrheidiol, i gefnogi gweithrediad parhaus Polisi cymhwysedd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.*

Ar y pwynt hwn (10.20am) cafwyd toriad a gadawodd yr Aelodau Cyfetholedig y cyfarfod.

Cafodd y cyfarfod ei ailymgynnull am 10.25 am

6 DIWEDDARIAD AR BROSIECT RHEOLEIDDIO MEYSYDD CARAFANAU YN WELL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y prosiect hwn ers adroddiad blaenorol y Pwyllgor Archwilio.

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad a chytunwyd y dylai'r cyfarfod symud i Ran II

RHAN II

Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

PENDERFYNWYD- dan ddarpariaethau Adran 100a(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn, ar y sail ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Tynnodd y Swyddogion sylw'r Aelodau at yr ystadegau oedd yn dangos yr amrywiaeth o wasanaethau a ddefnyddir gan bobl sy'n byw ar safleoedd carafanau "gwyliau" a phwysleisiodd bod:

- Llawer o waith cefndirol manwl wedi ei wneud gyda'r nod o ganfod maint y broblem o ran pobl sy'n byw mewn carafanau "gwyliau" yn barhaol ac yn cael mynediad at wasanaethau'r cyngor er nad ydynt wedi cyfrannu tuag at y gwasanaethau hynny drwy'r system Treth y Cyngor
- Mae'n bosibl hefyd bod pobl eraill sy'n byw mewn carafanau "gwyliau" na fyddai'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol ohonynt gan nad oeddent wedi'u cofrestru ar y gofrestr etholiadol neu wedi ceisio cael mynediad i wasanaethau. Gallai rhai hyd yn oed fod mewn swyddi llawn-amser
- O'r ymchwil a wnaed hyd yma, amcangyfrifwyd y byddai'r Cyngor yn colli lleiafswm o tua £300,000 y flwyddyn mewn arian Treth y Cyngor a thaliadau Grant Cynnal Refeniw (RSG) gan fod tua 175 o unigolion yn y sir yn byw drwy gydol y flwyddyn mewn carafanau "gwyliau"
- Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion yn byw yn safleoedd carafanau mawr y sir, ac roedd gan y safleoedd hyn eu gwasanaethau eu hunain fel siopau a golchdai ar y safle
- Roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda Chymdeithas Parciau Gwyliau a Chartrefi Prydain (BH&HPA) gyda'r bwriad o ddefnyddio aelodaeth y Gymdeithas fel modd o hyrwyddo arfer da a rheoli a chanfod camymddwyn a chamreoli
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu Llawlyfr Gweithdrefnau Rheoleiddio a rhagwelwyd y byddai'r llawlyfr hwn yn cael ei lansio yn ystod gwanwyn 2016 mewn cynhadledd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a'r BH&HPA.

Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau bryderon mewn perthynas â:

- Ceisiadau diweddar i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn gofyn i ymestyn amodau trwydded gweithredwr o 10 mis i 12 mis.
- Mae cost y "boblogaeth cudd" sy'n byw yn safleoedd carafanau'r sir i'r Cyngor, yn enwedig y rhai nad oedd ganddynt "gartrefi" mewn mannau eraill ac yn aros yn eu carafanau am 10 mis, yn mynd dramor am y 2 mis sy'n weddill cyn dychwelyd i'w carafanau "gwyliau" yn Sir Ddinbych. Roedd nifer o'r bobl hyn yn oedrannus a byddent, ar ryw adeg, yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal.
- Roedd posibilrwydd y gallai rhai o'r rhai a oedd â chartrefi mewn mannau eraill hefyd fod ar y gofrestr etholiadol mewn dwy ardal wahanol.

Cafodd Aelodau a swyddogion drafodaeth eithaf trylwyr am fanteision a chyfyngiadau cyflwyno "treth carafán" fel ffordd o sicrhau rhywfaint o incwm gan berchnogion y carafanau am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Cododd yr Aelodau bryderon mewn perthynas â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer tai cyngor a godwyd yn Atodiad 5 yr adroddiad (tudalen 56), a oedd yn amlinellu mynediad i dai cyngor a sut y gallai preswlydd gyda phroblemau meddygol mewn carafán ennill pwyntiau ychwanegol o gymharu â phreswlydd tŷ wrth wneud cais am dŷ cyngor. Gofynnwyd i'r Swyddog Arweiniol - Cartrefi Cymunedol ymchwilio i'r mater hwn yn fanwl.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, ymatebodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a swyddogion i gwestiynau'r Aelodau a gan ddweud:

- Gellid priodoli'r nifer isel o ymatebion hyd yma mewn perthynas â'r ymarfer mapio safleoedd carafanau yn rhannol i amseriad yr ymarferiad, a gynhaliwyd ar ddiwedd y tymor gwyliau. Fodd bynnag, ni ddylai hyn achosi oedi cyn cychwyn y gwaith i lenwi'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol gyda'r wybodaeth a gafwyd hyd yma.
- Nid yw pob gweithredwr safleoedd carafanau yn aelodau o BH&HPA, roedd tua 75% o weithredwyr safleoedd carafanau'r sir yn aelodau. Yn anffodus, y safleoedd mwy oedd y rhai a oedd yn tueddu i beidio â bod yn aelodau o'r Gymdeithas.
- Nid oedd rhai safleoedd carafanau yn caniatáu blychau post unigol ar y safle, roedd yn rhaid dosbarthu'r holl bost i'r swyddfa safle. Roedd hyn yn cynorthwyo perchnogion safleoedd i blismona'r anheddau'n well. Ni fyddai rhai perchnogion safleoedd yn gwerthu carafán i rywun heb brawf dilys o gyfeiriad yn rhywle arall.
- Roedd cofrestrau GIG hefyd yn ffynhonnell ddefnyddiol o ddata ar bobl a oedd yn byw ar safleoedd carafanau.
- Er bod y cyngor yn cefnogi'r cysyniad o fasnach ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, nid oedd hyn yn golygu cael yr un unigolion yn byw mewn carafanau am 12 mis. Nid yw pobl sy'n byw yn barhaol yn eu carafanau yn cyfrannu cymaint at yr economi leol ag y rhai sy'n ymweld am gyfnod byr, gan y bydden nhw'n ymweld â gwahanol leoliadau ac yn gwario arian yn y lleoedd hynny. Mae'r preswylwyr parhaol yn fwy tebygol o wneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau ar y safle fel siopau, bariau a bwytai.
- Roedd bythynnod gwyliau hefyd yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth i osgoi iddynt gael eu hystyried yn anheddau parhaol. Byddai'r drwydded ar gyfer bythynnod gwyliau yn nodi'r amodau a osodwyd arnynt.
- Er nad oedd unrhyw gymhellion ar gyfer safleoedd a "reolwyd yn wael" i gadw at y rheolau, y gobaith oedd y byddai cael "enw drwg" yn newid eu hymagwedd. Os na fyddai hyn yn gweithio, byddai angen i'r cyngor ddilyn y trywydd gorfodi.
- Pe bai unigolyn wedi prynu carafán ar safle 10 mis, gan feddwl ei fod yn holl safle drwy gydol y flwyddyn, gallai ef/hi gysylltu â'r Adran Safonau Masnach am ganllawiau yn ymwneud â chael cynnyrch wedi'i gam-werthu. Hefyd, aeth Swyddogion ati i godi'r mater hwn gyda'r BH&HPA.
- Ni fyddai'n ddefnyddiol i chwilio trwy ddata hanesyddol ar feddiannaeth safleoedd carafanau, byddai'n canolbwyntio ein hymdrechion ar ddata o'r deuddeg mis diwethaf ac yn y dyfodol yn ddefnydd llawer mwy defnyddiol o adnoddau.

Apeliodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus i gynghorwyr roi gwybod i'r swyddogion os oedd ganddynt unrhyw garafanau o fewn eu wardiau y maent yn amau sy'n cael eu meddiannu'n barhaol heb y caniatâd preswyllo gofynnol.

Cytunodd yr Aelodau na allai'r Cyngor fforddio colli tua £300,000 y flwyddyn. Roedd yna, felly, angen i sefydlu faint o gamau gorfodi y gallai fforddio eu cymryd yn y dyfodol. Dylai polisi rheoleiddio safonol a chyson wedi'i gyfuno â gwaith

partneriaeth gyda chymdeithas y BH&HPA a gweithredwyr meysydd carafanau lleol wireddu manteision i bawb dan sylw yn y tymor hir a helpu'r cyngor i ddarparu nifer o'i flaenoriaethau corfforaethol. Ar ddiwedd y drafodaeth, mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad i'r swyddogion am eu gwaith a:

PENDERFYNODD y Pwyllgor i gytuno yn amodol ar yr uchod:

- (i) *Bod y gronfa ddata gyfeiriadau corfforaethol a'r drefn fonitro newydd yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r posibilrwydd fod carafanau gwyliau yn cael eu meddiannu'n breswyl heb awdurdod yn y dyfodol trwy reolaeth cynllunio a thrwyddedu ar y cyd*
- (ii) *Datblygu gweithdrefnau a dogfennau ar y cyd ar gyfer monitro, ymchwilio a gorfodi safleoedd*
- (iii) *Datblygu strategaeth ragweithiol ar gyfer mynd i'r afael â safleoedd "problemus" mwy o faint yn y sir lle mae tystiolaeth o feddiannaeth breswyl heb awdurdod yn fwyaf cyffredin, ac y bydd angen i'r strategaeth hon sefydlu cyfnodau amser priodol lle na ellir ystyried bod camau gweithredu yn briodol wedi'r cyfnod hwnnw.*
- (iv) *Sefydlu cysylltiadau pellach gyda Chymdeithas Parciau Gwyliau a Chartrefi Prydain (BH&HPA) i greu gweithdrefnau rheoli parciau ar gyfer pob safle, a*
- (v) *Bod llawlyfr y Weithdrefn Rheoleiddio drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ystod gwanwyn 2016 (Mawrth o bosibl) i gael sylwadau'r aelodau.*

Ar y pwynt hwn (11.25 am) cafwyd toriad

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11:35am.

Ailddechreuodd y cyfarfod yn RHAN 1 ar y pwynt hwn.

RHAN 1 – GWAHODDWDYD Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

7 STRATEGAETH TAI DRAFFT

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i gyflwyno Strategaeth Tai Drafft y Cyngor a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig i gael sylwadau'r aelodau, cyn ei gyflwyno i Grŵp Llywio'r Aelodau Arweiniol yr wythnos ganlynol.

Byddai'r Strategaeth, a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Rhagfyr, 2015 i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu. Byddai'r cynnydd o ran cyflawni nifer o gamau gweithredu'r Strategaeth hefyd yn debyg o fod yn nodwedd o Aseiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Ddinbych, a fyddai'n digwydd yn hydref 2016.

Yn ystod y drafodaeth ar y Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi, cododd yr aelodau'r pwyntiau canlynol:

- Gallai gorfodi amodau cynllunio a thrwyddedu yn fwy llym mewn perthynas â safleoedd carafanau gwyliau yn y sir, fel y cynigiwyd yn yr adroddiad cynharach ar raglen fusnes y Pwyllgor ar y "Prosiect Gwell Rheoleiddio Safleoedd Carafanau", gael effaith bosibl ar gynllun cyflenwi arfaethedig y Strategaeth Dai
- Gan fod y Cyngor wedi tynnu'n ôl yn wirfoddol oddi wrth drefniadau Cyfrif Refeniw Tai (CRT) Llywodraeth Cymru, byddai disgwyl iddo ddefnyddio o leiaf rhan o'r hen arian CRT at ddiben adeiladu tai. Er y byddai pwysau eraill ar gyllideb y Cyfrif Refeniw Tai, roedd y trefniadau newydd yn darparu cyfleoedd i'r Cyngor wneud y mwyaf o'r buddion o ddefnyddio arian yr hen HRA
- Tynnwyd sylw at gyfyngiadau'r Polisi Pentrefannau presennol h.y. y ffaith nad yw rhai pentrefannau eisiau tai fforddiadwy gan nad oedd unrhyw ragolygon cyflogaeth neu wasanaethau lleol ar gael i ddenu pobl oedd angen tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hynny - dim ysgolion lleol na gwasanaethau bysiau. Tanlinellwyd hyn ymhellach gan y ffaith bod tair cymdeithas tai lleol yr oedd tirlfeddiannwr wedi cysylltu â nhw gyda'r bwriad o ddatblygu ar dir mewn ardal a oedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wedi gwrthod y cynnig ar y sail na fyddent yn gallu darparu unrhyw ddatblygiad arno oherwydd cyfyngiadau'r Polisi Pentrefannau
- Roedd angen cynnwys argaeledd a'r defnydd o dir y Cyngor yng nghynllun cyflenwi'r Strategaeth
- Yr angen i sicrhau bod y rhestr aros am dai Cyngor yn gyfredol, a bod y nifer a oedd yn aros am dai cyngor yn cael ei wirio yn rheolaidd. Roedd hefyd angen sicrhau bod cofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor yn gyfredol a'i hyrwyddo ar draws y sir
- Gofynnwyd i'r Swyddog Arweiniol – Cartrefi Cymunedol ystyried cadw'r 'teithiau cerdded' tai lle'r oedd aelodau lleol yn ymweld ag ystadau tai ynghyd â swyddogion tai, gan fod cynghorwyr yn teimlo bod y rhain yn fuddiol ac yn ddefnyddiol.

Wrth ymateb i bwyntiau'r aelodau amlinellodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai a swyddogion amcanion pob un o bum thema'r Strategaeth ac eglurodd y modd yr oedd pob thema'n ategu ei gilydd. Gwnaethant nodi bod:

- Cyfyngiadau'r Polisi Pentrefannau wedi cael eu trafod gan y Grŵp Llywio a nodi gweithred 1.5 Cynllun Cyflenwi'r Strategaeth ar gyfer 2015 - 2020 oedd mynd i'r afael â'r anawsterau a achoswyd gan y Polisi Pentrefannau
- Byddai tir a oedd yn eiddo i'r Cyngor yn cael ei drafod fel rhan o'r camau gweithredu i gyflawni'r Cynllun Cyflawni unwaith y byddai'r Strategaeth wedi cael ei chymeradwyo a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir. Byddai camau gweithredu'r Cynllun Cyflenwi'n cael eu hymgorffori yng nghynlluniau busnes pob Gwasanaeth
- O ran y rhestr Tai Cyngor, roedd tua 3,000 o ymgeiswyr ar y rhestr ar hyn o bryd, gwiriwyd dilysrwydd presennol y ffigurau hyn yn rheolaidd, ond roedd

yn broses feichus a oedd yn cymryd llawer o amser gan fod yn rhaid ei gwneud â llaw

- Roedd yna hefyd bobl eraill yn y cymunedau na fyddent yn cofrestru ar gyfer tai cyngor gan nad oedd unrhyw dai o'r fath ar gael iddynt yn yr ardaloedd yr oeddent eisiau byw ynddynt. Roedd yr un peth yn wir am y rhestr Tai Fforddiadwy. Cyfeiriwyd at y gwaith a oedd ar y gweill gyda Chyngor Cymuned Llandyrnog gyda'r bwriad o hyrwyddo rhestr Tai Fforddiadwy yn yr ardal benodol honno. Roedd hyn hefyd yn broses â llaw a oedd yn cymryd llawer o amser. Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol fod gan aelodau etholedig lleol ran i'w chwarae wrth hyrwyddo argaeledd y rhestr hon yn eu hardaloedd a'r manteision hyrwyddo bodolaeth y rhestr i bawb dan sylw
- Amlinellwyd y synergedd rhwng y pum thema wahanol yn y Strategaeth Dai yn yr un modd â'r angen am waith traws-wasanaeth a thraws-sector effeithiol er mwyn gwireddu canlyniadau'r Strategaeth
- Roedd angen gwaith mewn ymgais i ddeall pam fod datblygwyr yn dal yn amharod i ddod ymlaen i ddatblygu safleoedd sydd eisoes wedi'u nodi o dan y Cynllun Datblygu Lleol - a oedd unrhyw ffactorau gwaelodol economaidd neu ffactorau eraill yn cyfrannu at yr amharodrwydd hwn
- Roedd SAC yn awyddus i wybod a oedd y Cyngor yn rhoi digon o bwysau ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu tai fforddiadwy. Mae hefyd yn holi ynghylch bwriadau'r Cyngor ar gyfer ei arian CRT
- Roedd angen sicrhau bod tai priodol yn cael eu datblygu ar gyfer trigolion, er mwyn diwallu anghenion pob unigolyn diamddiffyn
- Roedd y Fforwm Tenantiaid hen sefydledig yn dal i weithredu ac roedd lefel dda o ymgysylltu rhwng y tenantiaid a'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd bob amser lle i wella. Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos fod anfodlonrwydd tenantiaid yn deillio o faterion lleol iawn
- Efallai y bydd angen adolygu Thema 5 y Strategaeth, 'Cymunedau Cynaliadwy', gyda'r bwriad o'i gryfhau o ran ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Roedd Tîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau llywodraethu ar gyfer cyflwyno'r Strategaeth. Y dewis a ffafriwyd oedd peidio â chael Bwrdd i'w oruchwylio. Yn sicr, byddai swyddogaeth i archwilio o ran monitro darpariaeth y Strategaeth, yn arbennig o ran y gwaith o gyflawni'r canlyniadau disgwylidig.

Cydnabu'r Aelodau bod pob cynghorydd wedi cael digon o gyfle i gyfrannu at y strategaeth ddrafft. Byddai hefyd ganddynt swyddogaeth bwysig o ran sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno. Gyda'r bwriad o gychwyn monitro canlyniadau'r Strategaeth unwaith y byddai wedi'i fabwysiadu, cytunodd yr aelodau i ofyn am gyngor gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio ar yr amser mwyaf priodol ar gyfer cychwyn y swyddogaeth fonitro, gan ystyried yr Asesiad Corfforaethol sydd i ddod.

Byddai'r Strategaeth yn rhoi cyfle i ddatblygu ystod lawn o gyfleoedd tai sy'n addas ar gyfer anghenion trigolion o'r crud i'r bedd a gwella ansawdd bywyd ar draws y sir y Cyngor.

PENDERFYNODD y pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod, a chwblhau camau gweithredu a restrir, i

- (i) *argymhell bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2015, yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Strategaeth Dai Ddrafft a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig ar gyfer y cyfnod 2015-2020; ac*
- (ii) *y dylai Archwilio fonitro cyflawniad canlyniadau'r Strategaeth o dro i dro.*

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi'i ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd copi o'r "ffurflen gynnig Aelod" wedi ei chynnwys yn Atodiad 2. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys fel Atodiad 3, roedd tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y pwyllgorau a nodi cynnydd o ran eu gweithredu wedi ei gynnwys yn Atodiad 4, a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol yn Atodiad 5.

Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio i'r Pwyllgor benodi dirprwy gynrychiolydd i eistedd ar Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol y Cyngor. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Martyn Holland i fod yn ddirprwy gynrychiolydd ar gyfer y Cynghorydd Win Mullen-James.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo'r Rhaglen Waith a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts grynodedb byr o'r cyfarfodydd yr oedd wedi bod iddynt yn ddiweddar. Roedd y cyfarfodydd hynny yn cynnwys TAITH, y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm

Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Rhagfyr 2015
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Phlant) / Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr y Gwasanaeth: Ardal y Gogledd/ Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl/ Rheolwr Gofal a Chymorth Tai
Teitl:	Gwasanaeth Cefnogi Byw'n Annibynnol (SIL)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn am gynnydd SIL i gwrdd â'r angen am gymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl hŷn ar draws y Sir, yn ystod yr hinsawdd ariannol bresennol o gyfyngiadau parhaus a'r angen i'r Cyngor gyflwyno arbedion.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunwyd yng nghyfarfod mis Medi 2015 o'r Pwyllgor Archwilio y byddai adroddiadau ar SIL yn parhau i gael eu dwyn gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn y dyfodol, hyd nes hysbysir fel arall, er mwyn galluogi aelodau i fonitro cynnydd SIL wrth ddiwallu anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl hŷn ar draws y Sir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir:

- Bod cynnwys yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried a bod yr Aelodau yn rhoi sylwadau fel bo'n briodol
- Bod adroddiad manwl llawn pellach yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Archwilio ynghylch y buddion posibl o gymryd ymagwedd symlach integredig tuag at reoli SIL, Ail-alluogi a'r Gwasanaeth Gweithiwr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSCSW).

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae SIL yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cefnogi Pobl, a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi bod yn destun Adolygiad Gwasanaeth Cefnogi Pobl llawn o eleni, a arweiniodd at gynllun gweithredu sy'n cynnwys cyfanswm o 21 o argymhellion dros 6 Maes Canlyniad. Mae'r Uwch Swyddog SIL wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddog Contract ac Adolygu CP, a adolygodd y gwasanaeth, ar ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu. Bydd gwaith yn parhau nes bod yr holl argymhellion wedi cael eu darparu a'u hymgorffori cyn cyhoeddi'r contract newydd fis Ebrill 2016.

